Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Little Ladybirds@ Bro Famau**

**Ysgol Bro Famau**
**Uned Llanferres**
**Ty'n Llan**
**Llanferres**
**CH7 5SP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/12/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Little Ladybirds@ Bro Famau

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Little Ladybirds@Bro Famau |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl Cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

ddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu diwrnod. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hapus ac wedi setlo. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd, ac maent yn dechrau cydweithredu a rhannu adnoddau. Mae'r plant yn ymddiddori wrth ddilyn eu diddordebau nhw eu hunain ac yn cael rhai cyfleoedd i feithrin eu hannibyniaeth.

Mae'r staff yn dilyn llawer o bolisïau a gweithdrefnau priodol sy'n hyrwyddo iechyd a diogelwch y plant. Maent yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant ac yn annog ymddygiad cadarnhaol. Mae'r staff yn mwynhau treulio amser gyda'r plant ac yn cynllunio rhai gweithgareddau priodol i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu.

Mae'r staff yn darparu lleoliad a gaiff ei gynnal a'i gadw'n addas i'r plant ac mae llawer o fesurau diogelwch priodol ar waith. Maent yn goruchwylio'r plant yn ddigonol ac yn darparu digon o le i'r plant chwarae yn gysurus. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth sylfaenol o adnoddau a chyfarpar glân sy'n briodol o ran oedran, y mae rhai ohonynt o fewn cyrraedd i'r plant. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn chwarae yn yr awyr agored bob dydd ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn briodol.

Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn gweithio'n galed ac yn addas i'w rôl newydd. Maent yn gwrando ar gyngor ac yn gwneud newidiadau, ond nid oes prosesau hunanwerthuso priodol ar waith ganddynt. Mae'r staff yn meddu ar brofiad a chymwysterau addas i ofalu am y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Caiff dogfennau cofrestru'r plant eu cadw'n ddiogel. Ceir partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a'r ddwy ysgol gyfagos. Fodd bynnag, mae angen gwella'r arweinyddiaeth gan nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â rhai o'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant — Digonol

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu diwrnod. Yn ystod cyfnodau chwarae rhydd, maent yn dewis pa deganau yr hoffent chwarae â nhw ac mae ganddynt rywfaint o reolaeth dros ba lyfrau a gaiff eu darllen i'r grŵp a pha ganeuon a gaiff eu canu. Mae'r plant yn hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Ond weithiau, ni wrandewir ar eu safbwyntiau, yn enwedig yn ystod gweithgareddau dan arweiniad oedolion, pan fydd y plant yn nodi nad ydynt am gymryd rhan.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd. Maent yn siarad yn hapus am eu teganau a'r ffaith bod eu coed Nadolig wedi cael eu rhoi i fyny gartref. Maent yn gyfforddus yng nghwmni'r staff. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn arferol y lleoliad. Er enghraifft, maent yn gwybod y dylid golchi eu dwylo cyn amser cinio ac y dylid gwisgo eu cotiau cyn mynd allan. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt, gan eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd nesaf.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n briodol ac yn gyfeillgar tuag at y bobl o'u cwmpas. Maent yn mwynhau siarad â'u ffrindiau am yr hyn y maent yn chwarae ag ef ac yn gwenu ac yn ymgysylltu â'r staff. Gyda chymorth, mae'r plant yn dechrau cydweithredu, cymryd eu tro a

rheoli eu teimladau. Maent yn dod yn fwy hunanymwybodol ac yn dysgu i fynegi eu hanghenion.

Pan fydd y plant yn symud o gwmpas ac yn arwain eu chwarae eu hunain, maent yn ymddiddori ac yn ymgysylltu â'r chwarae hwnnw. Er enghraifft, maent yn mwynhau dewis teganau o wahanol rannau o'r ystafell a defnyddio eu dychymyg i greu eu gemau eu hunain. Maent yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau yn yr awyr agored ac yn hoffi gwrando ar straeon. Weithiau, nid yw'r plant wedi'u cymell cymaint, gan eu bod yn cael cyfarwyddyd i gwblhau gwaith nad yw'n apelio at eu diddordebau unigol.

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, gyda chymorth, gallant wisgo eu cotiau, defnyddio'r toiled a golchi eu dwylo.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r staff yn rhoi llawer o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith sy'n hyrwyddo iechyd a diogelwch y plant. Er enghraifft, mae'r staff yn cynnig bwyd a diodydd cytbwys a maethlon, ac yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r plant chwarae yn yr awyr agored. Mae'r staff yn rhoi arferion hylendid priodol ar waith, fel glanhau'r byrddau cyn/ar ôl eu defnyddio a golchi eu dwylo cyn trafod bwyd. Mae'r staff yn sylweddoli bod diogelu yn rhan bwysig o'u gwaith ac mae pob un ohonynt yn deall ei gyfrifoldebau i amddiffyn y plant.  Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu diweddar nac yn gwybod ble i ddod o hyd i'r polisi diogelu. Caiff ffurflenni damweiniau/digwyddiadau eu cwblhau'n briodol, ond ni ofynnir i'r rhieni lofnodi'r ddogfen bob tro. Caiff cofrestrau presenoldeb y plant eu cwblhau'n gywir, ond ni chaiff presenoldeb y staff ei gofnodi ar yr un ddogfen.

Mae'r staff yn deall polisi ymddygiad y lleoliad ac yn ei ddilyn, ac yn rheoli'r rhyngweithio'n briodol. Maent yn fodelau rôl da, yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant ac yn annog ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, maent yn plygu at lefel llygaid y plant ac yn eu hannog mewn ffordd sensitif i rannu. Maent yn tawelu sefyllfaoedd yn briodol ac yn rhoi digon o ganmoliaeth am ymdrechion a chyflawniadau'r plant. Mae hyn yn helpu i feithrin hunan-barch a hyder y plant.

Mae gan y staff agwedd ofalgar a magwrus tuag at y plant ac maent yn mwynhau treulio amser gyda nhw. Maent yn eu helpu i wisgo eu dillad cynnes i fynd allan ac yn cynnig geiriau o gysur os bydd y plant yn drist. Mae'r staff yn cynnig rhai gweithgareddau priodol i'r plant sy'n gysylltiedig â chwricwlwm yn seiliedig ar chwarae. Er enghraifft, maent yn

cynllunio gweithgareddau fel gweithgareddau Nadolig, crefftau Hydref, cyfleoedd chwarae yn yr awyr agored a chyfleoedd chwarae blêr. Maent yn annog y plant i ddefnyddio eu dychymyg yn yr ardal chwarae rôl, ac wrth chwarae â'r teganau byd bach. Yn ystod cyfnodau 'chwarae rhydd', mae'r staff yn annog y plant i ddewis teganau o wahanol rannau o'r ystafell ac i symud o gwmpas yn rhydd. Fodd bynnag, yn aml mae'r gweithgareddau dan arweiniad oedolion yn cynnwys gormod o gyfarwyddyd, a cheir defnydd gormodol o daflennni gwaith, sy'n cyfyngu ar brofiadau a chreadigrwydd y plant. Caiff dyddiaduron dyddiol eu cwblhau bob dydd sy'n nodi gwybodaeth fel beth y mae'r plant wedi'i fwyta, eu teimladau a'r gweithgareddau y gwnaethant gymryd rhan ynddynt. Caiff y dyddiaduron hyn eu hanfon adref i'r rhieni er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n rheolaidd. Mae gan y staff rywfaint o ymwybyddiaeth o'r cod anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn meithrin eu dealltwriaeth o ba gamau i'w cymryd os byddant yn nodi plant y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Caiff y Gymraeg ei hyrwyddo'n briodol yn enwedig gan yr unigolyn cyfrifol, sy'n defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn rheolaidd wrth ymgysylltu â'r plant.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei gynnal a'i gadw'n addas ac mae llawer o fesurau diogelwch priodol ar waith. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi peryglon o ran diogelwch yr iard, a'r trefniadau ar gyfer storio cynhyrchion glanhau. Cyn ysgrifennu'r adroddiad, cawsom dystiolaeth ffotograffig i ddangos bod y lleoliad wedi ymdrin â'r materion hyn. Roedd clo wedi cael ei osod ar giât yr iard ac roedd y cynhyrchion glanhau wedi cael eu symud, sydd bellach yn bodloni'r gofynion.  Gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael, gan sicrhau bod modd rhoi cyfrif am bob oedolyn yn yr adeilad. Dywedodd y staff wrthym fod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi, sy'n sicrhau bod y plant a'r staff yn gwybod sut i adael y safle mewn argyfwng. Cawsom gopi o gofnodlyfrau ymarferion tân y lleoliad cyn ysgrifennu'r adroddiad, ac maent yn bodloni'r gofynion.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn goruchwylio'r plant yn ddigonol ac ar y cyfan, maent yn deall y gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol a risg annerbyniol ar gyfer grŵp oedran y plant y maent yn gweithio gyda nhw. Mae digon o le dan do i'r plant symud o gwmpas a chwarae'n gyfforddus. Mae rhai arddangosiadau ar y wal yn cynnwys enghreifftiau o waith y plant fel yr arddangosfa 'strawsome scarecrow' ac olion dwylo'r plant. Mae'r rhain yn gwneud i'r plant deimlo'n falch. Mae ardaloedd â matiau a charpedi yn sicrhau bod y plant yn gyfforddus wrth chwarae ar y llawr ac yn ystod amser straeon/caneuon. Mae lloriau y gellir eu sychu'n lân yn golygu y gellir glanhau'n hawdd ar ôl gweithgareddau blêr. Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth sylfaenol o adnoddau sy'n briodol o ran oedran fel cegin chwarae rôl, ceir, set drenau, teganau byd bach, llyfrau ac adnoddau ysgrifennu. Mae rhai adnoddau o fewn cyrraedd i'r plant, gan eu galluogi i helpu eu hunain. Fodd bynnag, mae rhannau o'r ystafell yn dangos ôl traul, ac nid yw'r adnoddau/ardaloedd yn cael eu trefnu'n ddigon da i ysbrydoli chwarae'r plant nac i helpu'r plant i ymlacio os

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

byddant wedi blino. Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i ddefnyddio'r ardal chwarae awyr agored yn rheolaidd, ond mae'r gweithgareddau hyn yn dueddol o ganolbwyntio ar drefn arferol y lleoliad, ac mae'r teganau/adnoddau awyr agored yn gyfyngedig.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod teganau o ansawdd priodol ar gael i'r plant, gan gynnwys rhai sy'n llwyddo i gynnal diddordeb y plant. Mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau yn lân a chaiff teganau sydd wedi torri eu symud ar unwaith. Mae'r dodrefn a'r cyfarpar o faint digonol ac mae'r rhan fwyaf yn addas i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r staff yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn briodol drwy adnoddau a gweithgareddau sy'n helpu'r plant i feithrin eu dealltwriaeth o'r gymdeithas ehangach. Mae rhai teganau pren naturiol, ond nid yw rhannau rhydd nac adnoddau penagored wedi'u datblygu'n ddigonol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r tîm arwain yn fach ac yn cynnwys yr unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb a benodwyd yn ddiweddar. Mae'r ddau yn addasu i'r newidiadau staffio diweddar. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n galed, yn weladwy ac yn gofalu am y plant ochr yn ochr â'r staff. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn cydymffurfio â rhai o'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Yn dilyn yr arolygiad, cydnabu'r unigolyn cyfrifol fod angen gwneud gwaith i sicrhau bod yr arweinwyr yn deall pa dasgau rheoli yr oedd pob un ohonynt yn gyfrifol amdanynt.

Mae amgylchedd y lleoliad yn gynnes ac yn groesawgar. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn mwynhau eu gwaith. Nid oedd y datganiad o ddiben yn gyfredol, ond cyn ysgrifennu'r adroddiad, cawsom gopi wedi'i ddiweddaru sy'n bodloni'r gofynion. Nid yw'r arweinwyr yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys fel newidiadau staff ac oriau agor, y mae'n ofynnol iddynt ei wneud. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r arweinwyr yn gwrando ar gyngor a gwnaethant ymdrin â rhai o'r materion a godwyd yn ystod yr arolygiad ar unwaith. Fodd bynnag, nid oes ganddynt systemau priodol ar waith i adolygu ansawdd y gofal, y mae'n ofynnol iddynt ei wneud bob blwyddyn. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Cyn ysgrifennu'r adroddiad, cawsom sampl o holiaduron a oedd yn dangos bod yr arweinwyr wedi dechrau gofyn am awgrymiadau gan y plant a'r rhieni/gofalwyr, a chadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol y byddai hyn yn helpu i lunio'r adroddiad ar ansawdd y gofal.

Nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennau gofynnol. Fodd bynnag, cyn ysgrifennu'r adroddiad, cawsom wybodaeth foddhaol i ddangos bod y staff yn addas i ofalu am y plant, gan gynnwys tystiolaeth bod gan bob aelod o'r staff dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael cyfnod sefydlu priodol, a chynhelir sesiynau goruchwylio anffurfiol. Caiff arfarniadau eu cynnal bob

blwyddyn, ond weithiau nid yw'r targedau rheoli perfformiad yn ddigon penodol. Caiff y staff eu hannog i fynychu hyfforddiant i ddatblygu eu hymarfer ymhellach. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr bob amser yn cynllunio ymlaen llaw ac yn adnewyddu cymwysterau cymorth cyntaf pediatrig gorfodol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae dogfennau cofrestru'r plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Mae partneriaethau cadarnhaol rhwng yr arweinwyr a'r rhieni. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad, y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Mae llawer o aelodau o'r staff yn gweithio yn yr ysgol yn ogystal â'r lleoliad, sy'n helpu i sicrhau cyfnod pontio didrafferth o'r lleoliad i'r ysgol. Mae'r arweinwyr yn hysbysu'r rhieni mewn ffordd addas am ddiwrnod eu plant drwy ddyddiaduron dyddiol, ac yn rhoi adborth llafar dyddiol adeg casglu'r plant.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Darparu amgylchedd ysgogol i'r plant er mwyn cynnig cymaint â phosibl o gyfleoedd chwarae a dysgu

A2 Sicrhau y caiff dewisiadau'r plant eu parchu'n llawn a chynllunio mwy o gyfleoedd i'r plant arwain eu chwarae a'u dysgu eu hunain

A3 Sicrhau y caiff cofnodion damweiniau/digwyddiadau eu llofnodi'n gyson gan y rhieni/gofalwyr adeg casglu eu plentyn

A4 Ychwanegu oriau gwaith y staff at gofrestr y plant

A5 Sicrhau bod aelodau newydd o'r staff yn mynychu hyfforddiant diogelu cyn gynted â phosibl a sicrhau eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i bolisi diogelu'r lleoliad

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 24 | Nid oedd yr unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod o leiaf un person sy'n gofalu am y plant yn meddu ar gymhwyster cymorth cyntaf cyfredol ac addas. | Newydd |
| 16 | Nid oedd yr unigolyn cyfrifol wedi rhoi system addas ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a roddir i'r plant. | Newydd |
| 31 | Nid oedd yr unigolyn cyfrifol wedi rhoi gwybod i ni am ddigwyddiadau o bwys fel newidiadau o ran yr oriau agor a newidiadau staff. | Newydd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/02/2023